# Cyngor cyd-undebol i grwpiau sy'n agored i niwed yn feddygol ac wynebu risg uwch

## Cyngor ar gyfer agor yn ddiogel

Ionawr 2022

Argyfwng Coronafeirws
Cyngor Gweithle

GMB UNION
NASUWT The Teachers' Union
undeb addysg cenedlaethol cymru
UNISON the public service union
unite the UNION

# Ionawr 2022

Mae'r cyngor cyd-undebol hwn ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau ac sy'n agored i niwed yn feddygol - boed yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol (CEV) neu agored i niwed yn glinigol (CV) - sydd fel arall mewn mwy o berygl o Covid-19, neu sy'n byw gyda phobl o'r fath neu'n gofalu amdanynt, ac i'w cyflogwyr.

---

## Y bygythiad a achosir gan yr amrywiad Omicron

Er y bydd y rhan fwyaf o staff ysgolion a cholegau bellach yn cael eu hamddiffyn yn erbyn Covid-19 gan frechu dwbl a phigiadau atgyfnerthu, mae cyfraddau heintio yn uchel oherwydd yr amrywiad Omicron, ac nid yw brechlynnau'n darparu amddiffyniad llwyr. Ar yr un pryd, ychydig iawn o fesurau diogelu sydd ar waith mewn safleoedd addysg ac mae mwyafrif y disgyblion yn parhau i fod heb eu brechu, neu wedi'u brechu'n rhannol. Yn ddealladwy, bydd gan y staff hynny sydd mewn mwy o berygl o ganlyniadau andwyol pe baent yn dal Covid-19, bryderon. Bydd angen i gyflogwyr, fel o'r blaen, barhau i ystyried ac asesu'r risgiau iddynt fel unigolion a'r mesurau diogelwch y dylid eu mabwysiadu.

Er bod cyngor gwarchod Llywodraeth Cymru wedi dod i ben, mae'r cyngor presennol i bobl sy'n CEV yn canolbwyntio ar faterion fel cyfyngu ar gysylltiadau agos, yn enwedig lle mae cyfraddau Covid-19 yn uchel yn y gymuned, cwrdd â phobl mewn ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n dda, golchi dwylo'n rheolaidd, a'r defnydd o orchuddion wyneb. Gellir, a dylid, mabwysiadu'r egwyddorion hyn hefyd mewn gweithleoedd, ar gyfer y gweithwyr hynny ac eraill, heb darfu ar waith nac addysg eraill.

---

## Pwysigrwydd asesiadau risg unigol

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn parhau i fynnu bod cyflogwyr yn dangos bod amgylchedd gwaith diogel ar waith trwy gynnal asesiadau risg, rhoi mesurau rheoli cymesur ar waith a'u cadw dan adolygiad. Mae hyn yn cynnwys asesu'r amgylchiadau unigol ar gyfer gweithwyr y gwyddys eu bod mewn mwy o risg o gontractio Covid-19. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys cyflyrau iechyd yr unigolyn ei hun ac unrhyw ffactorau sy'n eu rhoi mewn risg uwch am resymau eraill. Mae'r graddau y mae unigolion mewn perygl yn cael eu heffeithio gan eu hiechyd sylfaenol a chan eu hoedran, ethnigrwydd, rhyw, unrhyw anabledd neu feichiogrwydd.

Dylai asesiadau risg ystyried amgylchiadau personol ac amgylchiadau'r cartref (er enghraifft, gall aelod o staff fyw gyda rhywun sy'n CEV), mynychder lleol o Covid-19 a, lle bo angen, cyngor meddygol. Lle mae pryderon nad yw asesiad risg yn mynd i'r afael yn ddigonol â ffactorau risg unigol, dylai staff geisio datrys y mater trwy siarad â'u cyflogwr a'u cynrychiolydd undeb a lle bo angen, gofyn am gyngor gan eu meddyg teulu. Mae'r rheolau ynghylch cyflwyno nodiadau ffitrwydd / nodiadau salwch wedi'u newid yn ddiweddar i nodi bod yn rhaid darparu nodyn ffitrwydd ar ôl 28 diwrnod calendr yn hytrach na saith diwrnod i'r rhai sy'n dechrau absenoldeb salwch o 10 Rhagfyr. Cymryd absenoldeb salwch - GOV.UK. Mae hyn oherwydd bod adnoddau meddygon teulu yn canolbwyntio ar gyflwyno'r pigiad atgyfnerthu.

# Cyngor cyd-undebol ar gyfer staff a ddiffinnir fel rhai sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (CEV) gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai na allant gael eu brechu am resymau meddygol

1. Dylid cynnal asesiadau risg unigol bob amser - a'u hadolygu lle cawsant eu cynnal o'r blaen - ar gyfer staff a ddiffiniwyd fel cleifion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (CEV) neu'n methu â chael eu brechu am resymau meddygol.

2. Ymhlith y cwestiynau allweddol y dylid rhoi sylw iddynt fel rhan o'r broses hon ar gyfer staff o'r fath mae:

   - A ellir addasu trefniadau gweithio fel eu bod wedi'u lleoli mewn lleoliadau lle mae'r risg yn is, er enghraifft oherwydd ei bod yn haws cynnal pellter cymdeithasol?
   - A fyddant yn cael yr ystafelloedd dosbarth sy'n cael eu hawyru orau neu ardaloedd gwaith eraill, a fydd monitorau $CO_2$ ar gael fel y gellir gwirio lefelau awyru yn ystod y dydd?
   - A fydd y grwpiau o fyfyrwyr y maent yn gweithio gyda hwy yn cael eu cadw mor gyson â phosibl, gan gynnwys mewn perthynas â symud staff, i leihau maint eu cyswllt a myfyrwyr?
   - A fydd masgiau wyneb FFP2 / FFP3, sy'n amddiffyn y gwisgwr yn ogystal ag eraill, yn cael eu darparu iddynt?
   - Yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru, a fydd myfyrwyr ym Mlwyddyn 7 ac uwch yn cael cyfarwyddyd i wisgo gorchudd wyneb mewn ystafelloedd dosbarth a mannau addysgu eraill?
   - Sut yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch gweithio'n agos gyda staff nad ydynt efallai wedi cael eu brechu?
   - A fydd yr ysgol yn annog yr holl staff a myfyrwyr uwchradd i gynnal profion llif unffordd deirgwaith yr wythnos, a lle bo modd yn ddyddiol, i ddarparu isafswm o sicrwydd, yn ogystal â phrofion llif unffordd dyddiol am saith diwrnod pan fydd rhywun yn eu dosbarth yn profi'n bositif?
   - A fydd yr ysgol yn gofyn i unigolion sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag achosion positif hunan-ynysu gan ddisgwyl wrth aros am brawf PCR negyddol?

3. Dylai'r asesiad risg fod yn destun ymgynghori rhwng yr aelod staff a'r rheolwyr. Dylai'r aelod o staff hefyd ymgynghori'n rheolaidd â'u meddyg teulu neu ymgynghorydd ynghylch mesurau i'w cadw'n ddiogel wrth weithio. Mae'r sefyllfa'n ddeinamig a gall cyngor meddygol newid yn ôl mynychder lleol y firws.

4. Hyd nes y bydd mwy yn hysbys am effeithiau'r amrywiad Omicron mae'r undebau ar y cyd yn cynghori, er nad oes gofyniad gan y llywodraeth, yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, y dylid caniatáu i holl staff CEV weithio gartref. **I rai staff, gallai hynny olygu cytuno i adleoli dros dro i ddyletswyddau eraill y gellir eu cyflawni gartref.** Lle nad yw hyn yn bosibl, neu fod yr aelod o staff CEV yn dewis bod yn y gweithle yn hytrach na gweithio gartref, dylid ystyried mesurau lliniaru risg ychwanegol priodol, megis gweithredu ymbellhau cymdeithasol ychwanegol, OAP megis masgiau gradd FFP2 neu FFP3, a lleoliadau gweithio mwy diogel ac wedi'u hawyru'n well.

# Cyngor cyd-undebol ar gyfer staff a ddiffinnir fel rhai sy'n agored i niwed yn glinigol ac eraill sydd â risg sylweddol uwch

Dylid cynnig asesiadau risg unigol hefyd i staff eraill a ddiffiniwyd yn flaenorol fel rhai sy'n agored i niwed yn glinigol neu sydd â nodweddion sy'n eu rhoi mewn risg sylweddol uwch, megis ethnigrwydd, anabledd, bod yn wrywaidd a bod yn 60 oed neu'n hŷn, ac i unrhyw staff sy'n poeni am aelodau bregus o'r teulu. Dylai asesiadau o'r fath ystyried yr un math o fesurau diogelwch ychwanegol ag uchod. Dylid darparu OAP priodol ar gyfer unrhyw staff yn y gweithle sydd â risg sylweddol uwch.

# Cyngor cyd-undebol ar gyfer staff beichiog

Dylai'r cyngor ar y cyd a grynhoir isod, gan Lywodraeth y DU, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr a'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, gael ei ddilyn gan bob cyflogwr addysg

Mae'r cyngor meddygol swyddogol hwn yn nodi:

- Ni ddylai fod yn ofynnol i fenywod beichiog o unrhyw gyfnod beichiogrwydd barhau i weithio os na chaiff hyn ei gefnogi gan yr asesiad risg y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gyflogwyr ei gynnal..
- Er mai penderfyniad unigol ydyw, brechu yw'r ffordd orau o amddiffyn rhag risgiau hysbys Covid-19 mewn beichiogrwydd i fenywod a babanod, gan gynnwys salwch difrifol a genedigaeth cyn-amser (Fodd bynnag, nid yw cael brechiad yn dileu'r gofyniad i gyflogwyr gynnal asesiad risg ar gyfer gweithwyr beichiog).
- Merched beichiog sydd heb eu brechu, neu heb eu brechu'n llawn, sydd fwyaf mewn perygl. Anogir cyflogwyr i ystyried sut i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer gweithio gartref ar gyfer y categori hwn o staff a dylent ganiatáu amser i ffwrdd â thâl i staff dderbyn brechiadau a phigiadau atgyfnerthu lle bo angen.

Y safbwynt cyd-undebol yw, er nad yw'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru, nes bod mwy yn hysbys am effeithiau'r amrywiad Omicron, y byddai'n ddarbodus i leoliadau ganiatáu i fenywod beichiog, beth bynnag fo'r beichiogrwydd, a statws brechu weithio gartref. I rai staff, gallai hynny olygu cytuno i adleoli dros dro i ddyletswyddau eraill y gellir eu cyflawni gartref. Lle nad yw hyn yn ymarferol, neu pan fo cyflogai beichiog yn dewis bod yn y gweithle yn hytrach na gweithio gartref, dylai'r asesiad risg ystyried y ffactorau a nodir ym mhwynt 2 uchod.

Rydym hefyd yn cynghori y dylai pob menyw feichiog sy'n gweithio gartref neu sydd wedi'i gwahardd yn feddygol ar sail mamolaeth ysgrifennu at eu cyflogwr i gadarnhau eu bod yn bwriadu i'w habsenoldeb mamolaeth ddechrau yn yr Wythnos Ddisgwyliedig o eni plant (EWC).